# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 3 Mai 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Corus

**C6 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â Corus? (OAQ11115)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Mae trafodaethau yn parhau rhwng Corus a'r undebau llafur. Mae cyfarfod arall wedi cael ei drefnu ar gyfer heddiw.

### Datblygu Polisi Economaidd (Datblygu Cynaliadwy)

**C7 Rhodri Glyn Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod polisi economaidd yn cael ei ddatblygu o fewn fframwaith eang y cynllun datblygu cynaliadwy? (OAQ11123)

**Michael German:** Mae'r cynllun datblygu cynaliadwy yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer holl waith y Cynulliad. Mae'n rhaid i egwyddorion datblygu cynaliadwy fod ym mhrif ffrwd gwaith y Cynulliad, gan gynnwys pob polisi economaidd.

Bydd ymgynghori rheolaidd yn parhau ag is-adran datblygu cynaliadwy'r Cynulliad a chyrff allanol fel Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru, o ran pob mater sy'n ymwneud â pholisi economaidd, er mwyn sicrhau cysondeb. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i fanteisio ar y cynnydd yn y galw am dechnolegau, cynnyrch a phrosesau cynaliadwy.

### Diwydiant Twristiaeth Preseli Sir Benfro

**C8 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw fesurau penodol sydd ar gael i gynorthwyo'r diwydiant twristiaeth ym Mhreseli Sir Benfro? (OAQ11091)

**Michael German:** Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi darparu cyllideb o £250,000 er mwyn cefnogi mentrau marchnata o'r 12 ardal farchnata yng Nghymru, y mae Sir Benfro yn un ohonynt. Mae'r bwrdd yn bwriadu cefnogi ei gynigion marchnata ar sail 50:50, cyn belled â bod cyllideb ar gael.

Bydd Bwrdd Croeso Cymru yn gwneud cyhoeddiad cyn bo hir.

### Cwmnïau Ffonau Symudol

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y trafodaethau a fu rhyngddo â chwmnïau ffonau symudol yng Nghymru? (OAQ11139)

**Michael German:** Ar hyn o bryd mae pedwar o weithredwyr ffonau symudol yn cynnig gwasanaethau yng Nghymru, sef One 2 One, Vodafone, BT Cellnet ac Orange. Yr wyf yn bwriadu cwrdd ag One 2 One

yn y dyfodol agos. Pan fyddaf yn cwrdd â BT nesaf byddaf yn trafod gwaith BT Cellnet ymhlith pethau eraill. Ar ben hynny, mae fy swyddogion mewn cysylltiad â'r pedwar gweithredwr ynghylch materion gweithredol beunyddiol. Maent hefyd wedi cwrdd â gweithredwr newydd y drydedd genhedlaeth, Hutchinson 3G, i drafod gweithgarwch posibl y cwmni yng Nghymru yn y dyfodol.

### Dyfarnu Contractau Ynni

**C10 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganllawiau sydd yn bodoli i sicrhau yr adlewyrchir arbenigedd Cymru yn y broses o ddyfarnu contractau ynni? (OAQ11129)

**Michael German:** Nid yw rheolau caffael y Cynulliad Cenedlaethol yn caniatáu trin unrhyw gyflenwr yn ffafriol a chânt eu gyrru gan egwyddorion gwerth am arian. Mae'r amgylchedd masnachol ar gyfer gwasanaethau ynni yn gystadleuol dros ben, ond yr wyf yn falch o ddweud y caiff arbenigedd Cymru ym mhob agwedd ar y diwydiant ynni ei gydnabod yn eang ledled y DU a thu hwnt.

### Polisïau Cyflogaeth (Canllawiau’r Comisiwn Ewropeaidd)

**C11 Elin Jones:** Pryd oedd y tro diwethaf i’r Gweinidog dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar ganllawiau’r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer polisïau cyflogaeth? (OAQ11126) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Denu Mewnfuddsoddiad

**C12 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith yr arafu economaidd presennol yn yr Unol Daleithiau ar ymgyrch Awdurdod Datblygu Cymru i ddenu mewnfuddsoddiad? (OAQ11130) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Colli Swyddi yng Ngorseinon

**C13 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau y mae’n eu cymryd i fynd i’r afael â phroblem colli swyddi yn ardal Gorseinon, Abertawe? (OAQ11114)

**Michael German:** Er gwaethaf y swyddi a gollwyd yng ngorllewin Cymru yn ddiweddar, mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaid yn Nhîm Cymru yn parhau i hyrwyddo Cymru fel gwlad sydd â seilwaith diwydiannol cadarn, cysylltiadau cyfathrebu gwych, gweithlu hyblyg a hinsawdd busnes cadarnhaol. Yr ydym yn ymdrechu i ddenu buddsoddiad newydd, ond yn pwysleisio prosiectau sy'n galw am lefelau sgil uwch ac sy'n talu cyflogau uwch. Ochr yn ochr â hynny, yr ydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu busnesau brodorol sydd eisoes ar waith yng Nghymru, gan sicrhau ein bod yn cael cydbwysedd rhwng buddsoddiad mewnol a brodorol, gyda chymysgedd o brosiectau ledled Cymru, a gan sicrhau nad ydym yn dibynnu'n ormodol ar un sector penodol.

O ran y swyddi a gollwyd yn Valeo, mae Tîm Cymru mewn cysylltiad â'r cwmni er mwyn cynnig cefnogaeth lawn i'r staff yr effeithiwyd arnynt gan y cyhoeddiad. Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn marchnata'r safle a'r staff fel busnes byw drwy ei gronfa ddata helaeth o eiddo. Pe byddai hyn yn llwyddo, gallai olygu ychydig o ddiswyddiadau, os o gwbl.

Fodd bynnag, pe na bai'n llwyddo, bydd Dysgu ac Addysgu Cymru yn defnyddio ei gyllidebau hyfforddi i gefnogi pobl sydd wedi colli eu swyddi mewn diswyddiad sylweddol. Gall y Gwasanaeth Cyflogi gymryd camau i ymateb ar frys hefyd. Caiff y camau hynny eu teilwra i amgylchiadau a lleoliad penodol y diswyddiadau a gallai gynnwys cyngor a chyfarwyddyd gyrfaol, cymorth ar unwaith o ran ennill sgiliau newydd a gwaith newydd (gyda chymorth i dalu costau teithio ychwanegol os ceir gwaith y tu allan i'r ardal gyfagos), darparu gofal plant a chymorth gyda dechrau busnesau. Gallai'r rheini yr effeithir arnynt gan ddiswyddiadau fanteisio ar y camau hyn cyn iddynt gael eu diswyddo.

Gwneir datganiad arall am sefyllfa Corus.

**Anweithgarwch Economaidd (Dynion 60 i 64 Oed)**

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar anweithgarwch economaidd ymhlith dynion 60 i 64 oed yn hen ardaloedd glofaol Cymru? (OAQ11125) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Diwydiant Twristiaeth (Clwy'r Traed a'r Genau)**

**C15 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant ar effaith clwy'r traed a'r genau ar y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn y tymor canolig i'r tymor hir? ***Tynnwyd yn ôl.***

**Anweithgarwch Economaidd (Dynion dros 50 Oed)**

**C16 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar anweithgarwch economaidd ymhlith dynion dros 50 oed yn yr hen ardaloedd glofaol? (OAQ11136) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyfleoedd i Ddiwydiant Twristiaeth Cymru yn y Dyfodol**

**C17 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar unrhyw drafodaethau rhyngddo ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y cyfleoedd i ddiwydiant twristiaeth Cymru yn y dyfodol? (OAQ11137) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gweinyddu Cronfeydd Ewropeaidd**

**C18 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei berthynas waith â'r cyrff hynny sydd yn gyfrifol am weinyddu'r cronfeydd Ewropeaidd? (OAQ11092) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gweithlu'r Diwydiant Twristiaeth**

**C19 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog lansio unrhyw fentrau newydd i sicrhau bod gan ddiwydiant twristiaeth Cymru weithlu cryf ei gymhelliad, sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sydd yn hyblyg? (OAQ11096)

**Michael German:** Mae Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru eisoes yn gweithio er mwyn datblygu polisi datblygu addysg a hyfforddiant integredig er budd y diwydiant yn gyffredinol. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng Bwrdd Croeso Cymru a Dysgu ac Addysgu Cymru, i geisio cryfhau swyddogaeth y fforwm.

**Y Diwydiant Dur**

**C20 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch diwydiant dur Cymru? (OAQ11116) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynlluniau Prentisiaeth**

**C21 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynlluniau prentisiaeth sydd ar gael yng Nghymru a nifer y bobl sydd yn manteisio arnynt o'u cymharu â'r ffigurau yng nghenhedloedd neu ranbarthau eraill y Deyrnas Unedig? (OAQ11134) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Anweithgarwch Economaidd (Dynion dros 50)**

**C22 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar anweithgarwch economaidd ymhlith dynion dros 50 oed yng Nghymru? (OAQ11124) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygu Polisi Economaidd (Datblygu Cynaliadwy)**

**C23 Janet Ryder:** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod polisi economaidd yn cael ei ddatblygu o fewn fframwaith eang y cynllun datblygu cynaliadwy? (OAQ11121) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Economi Cymru (Clwy'r Traed a'r Genau)**

**C24 Nick Bourne:** Pa gynlluniau y bydd y Gweinidog yn eu sefydlu i helpu economi Cymru i ddod dros y niwed a achoswyd gan argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ11095)

**Michael German:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi darparu amrywiaeth mawr o gefnogaeth ar unwaith er mwyn helpu busnesau sydd wedi dioddef yn sgîl clwy'r traed a'r genau. Ar ben hynny, yr wyf fi, ar y cyd â'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, yn cadeirio grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd dan y bartneriaeth wledig ac sy'n cael ei gefnogi gan y sector amaeth-bwyd. Gofynnwyd i'r grŵp asesu effaith economaidd clwy'r traed a'r genau a chynnig mesurau ymarferol a fydd yn cynorthwyo adferiad.

Y sectorau allweddol y disgwylir y byddant dan sylw adroddiad y grŵp yw: ffermio a'r sector amaeth-bwyd, twristiaeth, busnesau gwledig eraill, sgiliau gwledig a straen gwledig.

**Cyllid Cymru**

**C25 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddull cyflwyno Cyllid Cymru? (OAQ11094) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Amcan 1 (Gogledd Cymru)**

**C26 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt prosiectau Amcan 1 yng ngogledd Cymru dros y misoedd diwethaf? (OAQ1112)

**Michael German:** Yn ychwanegol i'r ateb a roddwyd ar 15 Mawrth (OAQ10304), cymeradwywyd 10 prosiect arall gan y gronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd sy'n canolbwyntio ar ogledd Cymru, gyda grant gwerth dros £5.5 miliwn. Hyd yn hyn, cymeradwywyd 23 prosiect gan y gronfa datblygu rhanbarthol Ewropeaidd, sy'n cynrychioli grant gwerth dros £14.5 miliwn.

Ar ben hynny, bydd nifer o brosiectau yn cael eu rhoi ar waith ar hyd a lled rhanbarth Amcan 1.

**Economi De-ddwyrain Cymru**

**C27 David Davies:** Pa fesurau newydd y mae'r Gweinidog yn eu hargymell i helpu economi de-ddwyrain Cymru i ddod dros y swyddi a gollwyd yn Corus ac effeithiau'r rhaglen i ddiddymu clwy'r traed a'r genau? (OAQ11111)

**Michael German:** Mae cyfarfod arall rhwng Corus a'r undebau llafur wedi cael ei drefnu ar gyfer heddiw, ac ni fyddai'n briodol imi roi sylwadau ar gynlluniau adfer ar hyn o bryd. Yn ogystal â'r pecyn presennol o gymorth a chefnogaeth ariannol a gyhoeddais i fusnesau a mentrau twristiaeth yr effeithiwyd arnynt gan glwy'r traed a'r genau, mae'r grŵp gorchwyl a gorffen gwledig yn helpu i gynhyrchu cynlluniau ar gyfer ail-lansio'r economi wledig ledled Cymru. Bydd y rheini yn cynorthwyo i adfer ac yn hyrwyddo ailstrwythuro a thwf yn yr ardaloedd gwledig yn ne-ddwyrain Cymru yr effeithiwyd arnynt gan y clwyf.

**Rhaglen Tlodi Tanwydd**

**C28 Cynog Dafis:** A all y Gweinidog ddweud i ba raddau y mae'r Cynulliad, wrth gyflwyno'r rhaglen tlodi tanwydd, wedi defnyddio arbenigedd ac isadeiledd Cymru? (OAQ11128) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyfrifiaduraeth Gwantwm

**C29 Phil Williams:** A all y Gweinidog esbonio potensial cyfrifiaduraeth gwantwm fel sector sydd yn tyfu o fewn economi Cymru, fel yr awgrymir yn nogfen ymgynghori'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol? (OAQ11127) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Twristiaeth (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

**C30 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw fesurau penodol sydd ar gael i helpu twristiaeth yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro? (OAQ11093) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Pecyn Cymorth ar gyfer Busnesau

**C2 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog esbonio sut y dyrannwyd y pecyn cymorth ar gyfer busnesau i awdurdodau lleol yng Nghymru? (OAQ11156) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Fel yr eglurais i'r Cynulliad pan oeddwn yn cyflwyno Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 7) (Cymru) Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2001 ar 5 Ebrill, mae'r ffigurau yn adlewyrchu ein hamcangyfrifon gorau o fathau, niferoedd a maint y busnesau yr effeithiwyd arnynt fwyaf, ar sail data a ddarparwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Yr ydym wedi targedu'r gyfran fwyaf o'r grant i'r ardaloedd hynny sydd wedi dioddef fwyaf.

### Mesurau Cymorth Treth (Clwy'r Traed a'r Genau)

**C4 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt mesurau cymorth treth i fusnesau yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt gan argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ11105) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Edwina Hart:** Yn dilyn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 7) (Cymru) Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2001 ar 5 Ebrill, cafodd yr arian ychwanegol ei dalu i gynghorau ar 25 Ebrill. Hwy sydd bellach yn gyfrifol am benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r arian, yn unol â thelerau ac amodau yr Adroddiad Grant Arbennig. Mae fy swyddogion yn monitro'r sefyllfa a byddaf yn adolygu'r sefyllfa ar ôl tri mis.

*Atebwyd cwestiynau 5 i 7 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Cyllido'r Heddlu

**C8 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth San Steffan ynghylch cyllido'r heddlu yng Nghymru? (OAQ11089)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn siarad â Gweinidogion y DU yn rheolaidd am amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cyllido'r heddlu a llywodraeth leol yn fwy cyffredinol.

### Fformwla Barnett (Adolygu)

**C9 Ieuan Wyn Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch adolygu fformwla Barnett? (OAQ11144)

**Edwina Hart:** Dim. Fodd bynnag, yr wyf yn adolygu gweithredu fformiwla Barnett a'i heffaith ar floc Cymru yn gyson.

**Cyfanswm y Gwariant a Reolir sydd heb ei Ddynodi**

**C10 Phil Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Thrysorlys y DU drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cyfran Cymru o gyfanswm y gwariant a reolir sydd heb ei ddynodi? (OAQ11149)

**Edwina Hart:** Nid yw gwariant sydd heb ei ddynodi yn fater a ddatganolwyd. Fodd bynnag, mae fy swyddogion mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU yn rheolaidd ynghylch materion sydd yn ymwneud â Chymru.

**Fformwla Barnett (Adolygu)**

**C11 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar unrhyw drafodaethau y mae hi wedi eu cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch adolygu fformwla Barnett yn ystod oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ11162) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Fformwla Barnett (Trafodaethau)**

**C12 Alun Pugh:** A yw'r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chyda Gweinidogion eraill y DU ynghylch fformwla Barnett? (OAQ11151)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru o bryd i'w gilydd ac yr ydym yn trafod amrywiaeth o faterion ariannol sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys rhoi fformiwla Barnett ar waith a'i heffaith ar floc Cymru. Nid wyf wedi trafod y mater ag aelodau eraill Llywodraeth y DU.

**Canllawiau ar Daliadau i Ymgynhorwyr**

**C13 David Lloyd:** A yw'r Gweinidog wedi cyhoeddi unrhyw ganllawiau i gyrff a noddir gan y Cynulliad ynghylch taliadau i ymgynghorwyr? (OAQ11145) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyllid Ychwanegol ar gyfer Ardaloedd sydd yn Profi Newidiadau Strwythurol Mawr**

**C14 Ieuan Wyn Jones** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Thrysorlys y DU drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cyllid ychwanegol ar gyfer ardaloedd sydd yn profi newidiadau strwythurol mawr? (OAQ11143) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Newidiadau i Fformwla Barnett**

**C15 David Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Dirprwy Brif Weinidog y DU ynghylch newidiadau i fformwla Barnett? (OAQ11157)

**Edwina Hart:** Dim.

**'Statistical Analyses 2001-02' y Trysorlys**

**C16 Cynog Dafis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch unrhyw oblygiadau sydd gan 'Statistical Analyses 2001-02' y Trysorlys i Gymru? (OAQ11147) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Digwyddiadau neu Sefyllfaoedd na Ellir eu Rhagweld (Hyblygrwydd**

**C17 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyflwyno adroddiad am hyblygrwydd cyllideb y Cynulliad Cenedlaethol o ran delio â galwadau annisgwyl mewn ymateb i ddigwyddiadau neu sefyllfaoedd na ellir eu rhagweld? (OAQ11088)

**Edwina Hart:** Cafwyd rhywfaint o hyblygrwydd o ran ymdrin â gofynion ariannol annisgwyl at y flwyddyn ariannol gyfredol, gan fod £32.5 miliwn wedi'u hychwanegu at gyllideb y Cynulliad yn sgîl cyllideb y Canghellor ym mis Mawrth, yn ogystal â'n bod ni'n ddarbodus wrth reoli'r gyllideb a defnyddio adnoddau heb eu gwario neu eu hymrwymo yn y flwyddyn flaenorol (2000-01). O ran y dyfodol, mae cyllideb y Cynulliad a gymeradwywyd ar 29 Mawrth 2001 yn darparu cronfa £97 miliwn ar gyfer 2002-03, a £153 miliwn ar gyfer 2003-04 inni allu ymdrin â phwysau ariannol annisgwyl.

### Toriant yng Ngwariant Cyhoeddus

**C18 Ann Jones:** Pa asesiad a wnaed gan y Gweinidog o ganlyniadau'r toriad o £16 biliwn yng ngwariant cyhoeddus cylluniedig y DU i gyllideb y Cynulliad? (OAQ11155) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Gwario ar Wasanaethau Ymgynghorwyr

**C19 Brian Hancock:** Faint sydd wedi'i ddyrannu gan y Cynulliad i'w wario ar wasanaethau ymgynghorwyr yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol? (OAQ11146) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Effaith y Gyllideb ar Sefyllfa Ariannol y Cynulliad

**C20 Peter Black:** Pa effaith y mae'r gyllideb wedi'i chael ar sefyllfa ariannol y Cynulliad? (OAQ11154)

**Edwina Hart:** Mae darparu £100 miliwn ychwanegol dros dair blynedd yn hwb i gyllideb y Cynulliad.

### Fformwla Barnett (Trafodaethau)

**C21 Glyn Davies:** Pryd y trafododd y Gweinidog fformwla Barnett gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddiwethaf? (OAQ11107)

**Edwina Hart:** Yr wyf yn cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru o bryd i'w gilydd ac yr ydym yn trafod amrywiaeth o faterion ariannol sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys rhoi fformiwla Barnett ar waith a'i heffaith ar floc Cymru.

### Goblygiadau Mesurau Cyllidebol

**C22 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y goblygiadau i Gymru sydd yn deillio o'r mesurau cyllidebol a gyhoeddwyd gan Gordon Brown? (OAQ11103) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Ariannu Blaenoriaethau'r Cynulliad

**C23 Peter Black:** Pa arian ychwanegol sydd ar gael ar ôl y gyllideb i ariannu blaenoriaethau'r Cynulliad? (OAQ11153)

**Edwina Hart:** Mae'r Canghellor wedi sicrhau bod £100 miliwn ychwanegol ar gael i'r Cynulliad dros dair blynedd: £32.515 miliwn yn 2001-02, £34.191 miliwn yn 2002-03, a £33.111 miliwn yn 2003-04.

### Cyfrifoldeb Dros Gynllunio Corfforaethol

**C24 Ann Jones:** Sut y mae'r Gweinidog yn ysgwyddo'i chyfrifoldeb dros gynllunio corfforaethol yn y Cynulliad? (OAQ11109)

**Edwina Hart:** Yn y Cabinet, y Trefnydd sy'n gyfrifol am gydgysylltu polisi strategol. Yr wyf yn cyfrannu at y broses cynllunio corfforaethol mewn sawl ffordd, fel Gweinidog sydd â chylch gwaith polisi penodol, ac yn unol â'm cyfrifoldebau dros gynllunio cyllideb y Cynulliad. Er mwyn sicrhau

ymagwedd integredig tuag at gynllunio ariannol a strategol y Cynulliad, mae cylch cynllunio'r gyllideb bellach yn cysylltu dyraniadau ariannol â chanlyniadau polisi.

**Mesurau Cymorth Treth (Clwy'r Traed a'r Genau)**

**C25 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau i roi cymorth treth i fusnesau yng Nghymru yr effeithir arnynt gan argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ11102) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**

**C26 Phil Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pa gymorth ariannol sydd ar gael o gyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru? (OAQ11163) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Treuliau a Thaliadau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Cyhoeddus**

**C27 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei hadolygiad o'r treuliau a'r taliadau ar gyfer cadeiryddion ac aelodau cyrff cyhoeddus? (OAQ11101)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 10 Ionawr 2001. Yr ydym yn awr yn ymgynghori'n allanol ynghylch treuliau, ac ar ôl hynny byddwn yn llunio set o gynigion. Yr wyf wedi ymrwymo i ymgynghori â Phwyllgorau'r Cynulliad ar y cynigion hyn cyn ceisio cymeradwyaeth mewn Cyfarfod Llawn ar gyfer pecyn terfynol yn nes ymlaen eleni.

**Arian Arbennig (Clwy'r Traed a'r Genau)**

**C28 Elin Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Thrysorlys y DU drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch arian arbennig er mwyn adfywio ardaloedd yr effeithiwyd yn drwm arnynt gan argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ11142) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Newidiadau i'r Ffordd y caiff y Cynulliad ei Ariannu**

**C29 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyflwyno adroddiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda Thrysorlys y DU ynghylch unrhyw newidiadau posibl i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn cael ei ariannu? (OAQ11090)

**Edwina Hart:** Dim, er bod fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â'r Trysorlys ynghylch newidiadau yn ystod y flwyddyn i gyllideb y Cynulliad.

**Arian Arbennig (Diwydiant Dur)**

**C30 Janet Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Thrysorlys y DU drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch arian arbennig er mwyn adfywio'r ardaloedd sydd yn dibynnu'n drwm ar y diwydiant dur? (OAQ11148) ***Tynnwyd yn ôl.***